**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**PWNC:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 25 IONAWR 2024 DYDD IAU, 25 IONAWR 2024**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: C. Smith (Aelod Llywyddol)
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
H. Cunningham
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
L. Winnett

D. Woods

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Morgan, Y.H. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>Cynghorydd L. Winnett – Eitem Rhif 24 Dyfodol Silent Valley Waste Services Cyf yn dilyn trosglwyddo gwasanaethau (a chyflogeion) yn ôl i'r Cyngor.<br><br>Cynghorydd T. Smith - Eitem Rhif 24 Dyfodol Silent Valley Waste Services Cyf yn dilyn trosglwyddo gwasanaethau (a chyflogeion) yn ôl i'r Cyngor.<br><br>Cynghorydd H. Cunningham – Eitem Rhif 25 Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu Baban Newyddanedig, Rhieni a Mabwysiadu Aelodau Etholedig (Polisi Absenoldeb Teuluol). | |
| No. 4 | **<u>CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL</u>**<br><br>**<u>Llongyfarchiadau</u>**<br><br>Estynnwyd llongyfarchiadau i Charlie Caswell o Tredegar a | |

| | | |
|---|---|---|
| | enillodd ei gap 16 oed Cymdeithas Pêl-droed Ysgolion Cymru.<br><br>**<u>Cydymdeimlad</u>**<br><br>Adroddwyd gyda thristwch y bu farw Brian Thomas, a fu'n Gynghorydd am gyfnod maith ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mynegodd aelodau eu cydymdeimlad a dangos eu parch gyda munud o dawelwch. | |
| | **<u>LLYFR PENDERFYNIADAU – HYDREF-RHAGFYR 2023</u>**<br><br>Cafodd y Llyfr Penderfyniadau ar gyfer y cyfnod Hydref-Rhagfyr 2023 ar gyfer ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penderfyniadau a chadarnhawyd eu bod yn gofnod gywir o drafodion. | |
| **No. 5** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 6** | **<u>CABINET</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **<u>CABINET</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **<u>PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 10** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU LLE</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU POBL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU LLE</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **<u>CWESTIYNAU AELODAU</u>**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan Aelodau. | |
| **No. 17** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 18** | **<u>CYNNIG Y CYNGOR – TRAIS YN Y GWAITH</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynnig a gyflwynwyd ar drais yn y gwaith.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r Cynnig a chytunodd y Cyngor i:<br>• Ailgadarnhau ei ymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol ac ymgynghori a chydweithio gydag undebau llafur<br>• Mabwysiadu Siarter Trais yn y Gwaith Unsain<br>• Annog pob ysgol i fabwysiadu'r Siarter<br>• Annog Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin i fabwysiadu'r Siarter. | |
| **No. 19** | **ADRODDIAD AELODAETH**<br><br>**Panel Ymgynghori Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol**<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 17 Ionawr 2024 i benodi mewn egwyddor:<br><br>**Cymuned Ddysgu Abertyleri – Michael Lyn Davies**<br>**Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon – Julie Sambrook**<br><br>I gadarnhau'r penodiad dilynol a wnaed gan gyfarfod y panel ar 15 Tachwedd 2023:<br><br>**Ysgol Gynradd Glyncoed –** Ms. Vikki Curtis<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penodiadau uchod.<br><br>**Pwyllgor Craffu Pobl – Cynrychiolydd Cyfetholedig y Fforwm Ieuenctid**<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau penodiad Miss Chloe Lines fel Cynrychiolydd Cyfetholedig y Fforwm Ieuenctid ar y Pwyllgor Craffu Pobl (dechreuodd y penodiad ar 21 Medi 2023). | |
| **No. 20** | **ADRODDIAD DIWEDDARU CHWARTEROL RHEOLI TRYSORLYS – MEHEFIN 2023**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Cyngor yn derbyn y gweithgaredd rheoli trysorlys yn ystod 3 mis cyntaf 2023/24 heb | |

| | | |
|---|---|---|
| | wneud unrhyw ddiwygiadau i'r strategaethau Trysorlys a dangosyddion perfformiad a gytunwyd yn flaenorol. | |
| **No. 21** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/2023 Y PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant a gyflwynwyd ar ran y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio fel sicrwydd fod trosolwg a monitro priodol yn digwydd a derbyn unrhyw ddiffygion fod mesurau rheoli yn eu lle i wneud y gwelliannau angenrheidiol. | |
| **No. 22** | **<u>POLISI RECRIWTIO A DETHOL</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Recriwtio a Dethol ar gyfer ei weithredu. | |
| **No. 23** | **<u>CRONFA'R AELOD LLYWYDDOL – CYNIGION AR GYFER DEFNYDD</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Llywyddol i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a dyrannu cyfanswm o £6,594.23 o'r Gronfa fel sy'n dilyn:<br><br>£1,200 ar gyfer Prosiect Murlun Celf ar y Blaen/Gorsaf Bwmpio Llanhiledd<br><br>£540.84 i Eglwys San Siôr Tredegar / cefnogi ymweliad i Uganda i helpu addysg plant<br><br>£1,200.00 i Ysgol Gynradd Deighton / Prosiect Rhandir | |

| | | |
|---|---|---|
| | £75.00 Prosiect Mannau Lleol ar gyfer Natur (Cwmcelyn) / i ategu gwaith Bioamrywiaeth sy'n mynd rhagddo<br><br>£283.39 Sefydliad newydd Cwm / Cynnal a Chadw yr Adeilad<br><br>£500.00 Grŵp Cofeb Glowyr Tredegar / cyfraniad ar gyfer y Clwydi Coffa<br><br>£2,160.00 Cwmni Budd Cymunedol Nantyglo* / sefydlu gardd/gofod tyfu o amgylch Heol Attlee<br><br>£75.00 Cangen Abertyleri Catrawd Frenhinol Cymru – digwyddiad Coffa Dydd Gŵyl Dewi<br><br>£75.00 Clwb Bowls Llanhiledd – cynllun ehangu cyfranogiad<br><br>£100.00 Capel Glowyr Seion – prosiect Gardd Blodau Gwyllt<br><br>£75.00 Canolfan Gymunedol Aberbîg – prosiect Happi Cafe<br><br>£75.00 Canolfan Gymunedol Swffryd – cymorth costau byw<br><br>£75.00 Canolfan Gymunedol Brynithel – cymorth costau byw<br><br>£160.00 Rhandiroedd Rhiw Briery / cynnal a chadw cyffredinol<br><br>**Nid yw'r Cwmni Budd Cymunedol wedi ei sefydlu'n ffurfiol ar hyn o bryd, caiff y cyfraniad ei wneud yn dilyn ymgorfforiad ffurfiol.* | |
| **No. 24** | **<u>DYFODOL SILENT VALLEY WASTE SERVICES CYF YN DILYN TROSGLWYDDO GWASANAETHAU (A CHYFLOGEION) YN ÔL I'R CYNGOR</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorwyr L. Winnett a T. Smith fuddiant yn yr eitem hon.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a bod y Cyngor yn cymeradwyo Opsiwn 1, sef diddymu Silent Valley Waste Services Cyf. Byddai hyn yn arwain at i'r cwmni gael ei | |

| | | |
|---|---|---|
| | dynnu o'r Gofrestr Cwmnïau. | |
| **No. 25** | **<u>POLISI ABSENOLDEB MAMOLAETH, TADOLAETH, MABWYSIADU BABANOD NEWYDDANEDIG, RHIENI A MABWYSIADU AR GYFER AELODAU (POLISI ABSENOLDEB TEULU)</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd H. Cunningham fuddiant yn yr eitem hon.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democratiaeth i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a bod y Cyngor yn cymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo a chyhoeddi'r Polisi Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu Babanod Newyddanedig, Rhieni a Mabwysiadu ar gyfer Aelodau (Polisi Absenoldeb Teulu a nodir yn Atodiad 1. | |
| **No. 26** | **<u>CAIS I BRYDLESU CLWB A SAFLE YM MHARC EUGENE CROSS, GLYNEBWY</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Tîm Stadau a Rheoli Asedau i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a bod y Cyngor yn cymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Cyngor fel ymddiriedolwyr elusennol yn penderfynu eu bod yn fodlon, ar ôl ystyried adroddiad y syrfëwr y mae copi ohono yn Atodiad 1, fod telerau'r gwarediad y gorau y gellir eu cael yn rhesymol ar gyfer yr elusen ac yn cytuno ar egwyddor y brydles arfaethedig ar gyfer yr ardal o dir ac adeiladau a ddangosir gydag ymyl goch ar y cynllun ynghlwm yn Atodiad 1 am dymor o 35 mlynedd yn amodol ar:<br><br>i. ECPSL yn talu premiwm unwaith yn unig o £1.00.<br><br>ii. Cael caniatâd y Comisiwn Elusennol i'r brydles, sy'n rhaid ei gael cyn i'r les gael ei chwblhau'n gyfreithlon. | |
| **No. 27** | **<u>EITEMAU EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitem eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyhoeddus a bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rheswm dros y penderfyniad am yr eithriad ar gael mewn rhestr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 28** | **<u>LLYS EINION, ABERTYLERI</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, sef o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol i gael ei ystyried.<br><br>Cynigiodd Aelod Opsiwn 3 amgen, fel y'i manylir yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024.<br><br>Eiliwyd y cynnig.<br><br>Opsiwn 3- Hysbysu'r Landlord am fwriad y Cyngor i ddod â'r brydles i ben ar ddiwedd y brydles ar 16 Rhagfyr 2025.<br><br>Mewn pleidlais a gymerwyd,<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad oedd yn cynnwys gwybodaeth am faterion ariannol/busnes heblaw'r Awdurdod a bod y Cyngor yn cymeradwyo Opsiwn 2, sef dechrau gadael Llys Einion o 1 Ebrill 2024 ac iddo gael ei adael yn wag nes daw'r brydles i ben ar 16 Rhagfyr 2025; a hysbysu'r Landlord am fwriad y Cyngor i ddod â'r brydles i ben ar ddiwedd y brydles erbyn 16 Rhagfyr 2025. | |
| **No. 29** | **<u>LLUNIO RHESTR FER – JNC CE PRIF WEITHREDWR</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, sef o bwyso a mesur popeth fod y budd | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd\|).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad oedd yn ymwneud â materion staffio a nodi'r penderfyniadau a gynhwysir ynddo. | |